

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
12 Hydref 2022
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, C Thomas, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng J Earnshaw, G Parry, S Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd C Thomas i'w chyfarfod cyntaf
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng I Roberts eitem 6.1
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14.09.22 - Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Bydd y Clerc yn atgoffa R G Hire i wneud y gwaith
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – Dywedodd y Clerc y bydd y Gymdeithas yn agor ceisiadau ddiwedd Hydref yn dilyn cyfarfod rheoli. Hefyd gofynnwyd i'r Clerc ystyried gwneud cais i Comic Relief
4.3	Tap mynwent Salem - Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa'r plymiwr i ddod yn ôl ato gyda phris
4.4	Parcio Stryd Fawr - I'w adolygu yn y cyfarfod nesaf
4.5	Gor-yrru Engedi - Dywedodd y Clerc fod Gan Bwyll wedi ymateb gan ddweud y byddant yn mynychu ar y Suliau yn ôl y gofyn. Cytunwyd i dynnu'r mater oddi ar yr agenda
4.6	Cynrychiolwyr pwyllgorau - Llywodraethwyr Ysgol, Bryngwran - Cyng E Law-Shui Nicholson; Iechyd a Diogelwch - Cynghorwyr R G Parry, H N Evans, C Thomas, I Roberts; Unllais Cymru - Cynghorwyr I Roberts a P Roberts; Y fynwent - Cyng G Parry, P Roberts; Maes chwarae - C Thomas
	Llofnod.....Cadeirydd 09.11.22

4.7	Y Fynwent - Bydd y Clerc yn trefnu i gwrdd â'r Cadeirydd yn y fynwent i ddiweddarau'r gofrestr ynglŷn â plotiau a brynwyd ymlaen llaw
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau i anfon eu hanghenion hyfforddi at y Clerc. Soniodd hefyd am yr angen am hysbysfwrdd newydd ger yr ysgol. Cytunwyd bod y Clerc yn gwario hyd at £600. Soniodd hefyd am yr angen i baratoi ar gyfer Sul y Cofio. Dywedodd y Clerc ei fod eisoes wedi gwneud y trefniadau
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Swyddog Monitro
6.1	Mae Cylchlythyr y Pwyllgor Safonau wedi'i ddsbarthu i'r aelodau. Yn dilyn ceisiadau i eistedd ar y Pwyllgor Safonau i gynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned, cytunodd y cyngor i bleidleisio dros y Cyngorwyr Iorwerth Roberts a Stephen Griffiths.
	Cynllunio
6.2	FPL/2022/251 Cais cynllunio llawn i ganiatáu codi ty fforddiadwy mwy yn lle'r ty fforddiadwy a gymeradwywyd ar y safle yn Lon ty Hen, Bryngwran – dim sylwadau
6.3	FPL/2022/245 Cais llawn am newid defnydd y garafán statig gysylltiedig bresennol i lety gwyliau ynghyd â chreu 2 fae parcio yn tyn Lon, ceirchiog, Ty Croes – dim sylwadau
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
	Dim
8	MATERION ERAILL
	Dim
9	MATERION ARIANNOL
9.1	Cofrestriad Cymdeithas Fychain (Lottery) Taliad blynyddol £40.00 - Cytunwyd i beidio ag adnewyddu'r drwydded
9.2	Adolygu cyllideb - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd l gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
	Llofnod.....Cadeirydd 09.11.22

9.3	Adolygiad blynyddol o gyflog y Clerc - Cytunwyd i symud hwn i'r cyfarfod nesaf er mwyn i'r Clerc gasglu gwybodaeth ategol
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Amseroedd y cyfarfodydd
10.2	Bus Engedi
	Llofnod.....Cadeirydd 09.11.22